# Grwndi ar Goll

Stori gan Eurgain Haf

"Bore da, Grwndi" cyhoeddodd Anna gan ymestyn ei breichiau'n gysglyd. Agorodd ei cheg a dylyfu gên yn uchel. Tynnodd y flanced yn dynn o'i chwmpas gan ddatgelu ei thraed noeth ar waelod y gwely. Gorweddodd yn llonydd, yn hanner cysgu o hyd, ac arhosodd i'r tafod bach melfedaidd lyfu ei thraed fel y gwnâi bob bore.

Arhosodd. Ac arhosodd. Ac arhosodd. Dim byd.

Trodd Anna i'w hochr a tharo'i llaw yn ysgafn ar hyd y flanced gan ddisgwyl teimlo blew meddal, sidanaidd Grwndi yn anwesu ei bysedd.

Dim byd.

Gorweddodd yno am rai eiliadau, gan wrando am y sŵn canu grwndi cyfarwydd.

Dim byd.

Agorodd Anna'i llygaid am y tro cyntaf y bore hwnnw.

"Grwndi?"

Cododd ar ei heistedd. Archwiliodd y gwely, gan graffu am y belen fach oren a arferai ei chyfarch bob bore.

"Grwndi?"

Cododd Anna'r flanced, rhag ofn bod ei ffrind fflwfflyd yn cuddio oddi tani.

Dim byd.

Dyna ryfedd, meddyliodd Anna. Roedd Grwndi wedi cysgu ar waelod gwely Anna bob nos, yn ddi-ffael, ers iddi ddod atyn nhw'n gath fach ddwy flynedd yn ôl. Ble yn y byd oedd hi?

"Grwndi?"

Cododd Anna o'r gwely.

"Grwndi?"

Archwiliodd Anna ei hystafell wely – o dan y gwely, yn y cwpwrdd dillad, ar y ryg o flaen y ffenest, ar y pentwr dillad glân wrth y drws.

Ond doedd dim golwg o Grwndi yn unman.

Rhyfedd iawn, meddyliodd Anna. Mae'n rhaid ei bod hi ar lwgu ac wedi codi o fy mlaen i bore 'ma.

Ond cafodd Anna siom pan gyrhaeddodd y gegin. Doedd dim sôn am y gath sinsir yno chwaith, a doedd Mam heb ei gweld ers iddi godi rhyw awr ynghynt. Edrychodd y ddwy ym mowlen Grwndi a gweld bod y bwyd a adawodd Anna iddi cyn mynd i'r gwely neithiwr, yn barod at frecwast y bore 'ma, heb ei gyffwrdd.

Dyna pryd y dechreuodd Anna boeni go iawn. Doedd hyn ddim fel Grwndi o gwbl. Ble oedd hi?

Aeth Anna a'i mam ati i chwilio amdani trwy'r tŷ, gan alw'i henw'n uchel ac ysgwyd y bocs o fwyd sych er mwyn denu'i sylw. Ond doedd dim sôn amdani.

"Beth sydd wedi digwydd iddi, Mam?" holodd Anna, â'i llais yn sigledig a dagrau'n cronni yn ei llygaid. "Ble mae hi wedi mynd?"

"Paid â phoeni, cariad," ceisiodd Mam ei chysuro. "Allith hi ddim bod yn bell. Fe ddown ni o hyd iddi, dwi'n addo. Nawr, fedri di feddwl - pryd oedd y tro diwethaf i ti ei gweld hi?"

Fe wyddai Anna'n iawn pryd y gwelodd Grwndi ddiwethaf. Neithiwr, yn y gwely, pan roddodd gusan fach ar ei phen, cosi ei bol yn dyner a dymuno nos da iddi. Dyna'r drefn bob nos. Ond ble yn y byd oedd Grwndi wedi llwyddo i fynd rhwng amser gwely ac amser codi bore 'ma?

"Dere, awn ni i weld os oes golwg ohoni yn yr ardd," cynigiodd Mam yn sionc. "Falle'i bod hi wedi mynd allan y peth cynta' bore 'ma er mwyn dod o hyd i fymryn o fwyd."

"O'r gorau," atebodd Anna'n benisel. Gwyddai fod ei mam yn ceisio'i gorau i godi ei chalon, chwarae teg iddi. Ond gwyddai hefyd nad oedd hi'n debygol fod Grwndi wedi codi'n dawel fach o'r gwely cynnes, sleifio i lawr y grisiau i'r gegin tra bod pawb yn cysgu, anwybyddu'r ddysgl llawn dop o fwyd sych wrth y sinc a mynd allan i oerfel yr ardd trwy'r cat flap.

Ar ôl awr a mwy o chwilio, daeth Anna a Mam i'r casgliad nad oedd golwg o Grwndi yn yr ardd nac allan ar y stryd o flaen y tŷ, chwaith. Erbyn hyn, roedd bochau Anna'n wlyb gan ddagrau.

"O, Mam, ble mae hi? Beth os yw hi ar goll? Beth os oes rhywun wedi mynd â hi?" llefodd yn dawel.

"Anna, dwi'n siŵr bod esboniad digon rhesymol dros hyn i gyd," meddai Mam yn bwyllog. "Beth am i ni ffonio Dad? Mae e wedi gadael y tŷ ers ben bore er mwyn mynd â'r bagiau o hen ddillad ac ati y buon

ni trwyddyn nhw ddoe i siopau elusen a'r ganolfan ailgylchu. Mae'n bosib iawn iddo weld Grwndi cyn gadael y tŷ."
Cododd calon Anna fymryn, ac wrth i Mam ddeialu rhif Dad, croesodd ei bysedd yn dynn y tu ôl i'w chefn.
Plis bod Dad yn gwybod lle mae Grwndi, ymbiliodd yn dawel.
Ond gwyddai'n iawn, o wrando ar dôn llais ei mam, beth oedd ymateb Dad.
"Na? O'r gorau. Na, na, dim problem. Dwi'n siŵr ei bod hi'n saff yn rhywle. Iawn, welwn ni ti mewn munud."
"Mam," meddai Anna'n ddagreuol. "Mae Grwndi ar goll, yn tydi? Ar goll go iawn! Beth wnawn ni?"
"Reit..." meddai Mam. "Y peth cyntaf wnawn ni yw creu posteri i'w harddangos ar hyd y pentref. Efallai bod un o'r cymdogion wedi ei gweld hi. Cer di i nôl y gliniadur, ac fe af i i ffonio'r filfeddygfa – rhag ofn bod rhywun wedi dod o hyd iddi a mynd â hi yno."
Teimlodd Anna ei stumog yn troi. Creu posteri? Milfeddygfa? Roedd hyn yn ddifrifol!

***

**Ar goll!**

Cath fach sinsir o'r enw Grwndi.




Os gwelwch chi hi, rhowch wybod i Anna yn rhif 3, Stryd yr Eglwys. Diolch.

Wrthi'n argraffu'r poster olaf i'w arddangos oedd Anna pan glywodd sŵn allwedd Dad yn nrws y ffrynt.

"Anna," clywodd lais Dad yn galw. "Anna, dere 'ma, cariad".
"Dwi'n dod, Dad," atebodd, gan gydio yn y pentwr posteri yn un llaw a phinnau bawd yn y llall.
Wrth gerdded i lawr y grisiau'n ddigalon, sylwodd fod Mam a Dad yn sefyll yn wên o glust i glust wrth y drws y ffrynt. Ac yna sylwodd ar rhywbeth arall – bwndel bach oren, fflwfflyd yn swatio'n glyd ym mreichiau Dad!
"Grwndi!" ebychodd yn uchel, gan neidio i lawr y tri gris olaf a rhuthro draw at Dad. "Beth yn y byd...?"
Ac wrth i Anna gwtsho'i chyfaill bach yn dynn, esboniodd Dad y cyfan.
"Wel... ar y ffordd i'r siop elusen olaf oeddwn i, ar ôl siarad ar y ffôn gyda dy fam, pan glywais i sŵn rhyfedd yn dod o fŵt y car. Sŵn bach tawel i gychwyn ond yna aeth yn uwch ac yn uwch. Stopiais y car a mynd i edrych, gan sylweddoli taw sŵn mewian ro'n i'n ei glywed! Ac yn wir i ti, pwy oedd yno'n cuddio yn un o'r bocsys yn y bŵt ond Grwndi!"
"Beth?!" fedrai Anna ddim coelio'i chlustiau. "Ond sut...?"
"Wel, bocs o hen ddillad a blancedi o dy ystafell wely di oedd e. Mae'n rhaid ei bod hi wedi dringo iddo rhywbryd yn ystod y nos neithiwr, gan feddwl y byddai'n lle bach braf i gysgu! Wyddwn i ddim pan es i â'r bocs o dy ystafell di bore 'ma ei bod hi yno!"
"O, Grwndi!" ebychodd Anna. "Rwyt ti wedi bod ar antur a hanner bore 'ma, yn do? O, dwi mor falch dy fod di'n saff!"
Cusanodd Anna ben y belen fach fflwfflyd yn dyner. Llyfodd Grwndi ei llaw yn gariadus... a chanu grwndi'n uchel, wrth gwrs!



ATEBION SYR CIP



1.

2. a) Eiry, Siôn, Dylan, Nerys, Sioned
b) Nest, Elinor, Gwilym, Mareged, William
c) Anna, Cynan, Hawys, Carwyn, Macsen

3. a) gwiwer goch
b) llyffant
c) llygoden